

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/11/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell
Iwan Hughes
Barbara Warren

Thomas Victor Jones
John Brinley Jones
Rhodri Ellis Owen

Greta Hughes
Clair Russell Griffiths
Rhian Hughes-Jones
(Clerc)

William Roger Jones
William Penri Jones

1. Ymddiheuriadau

Dim

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

3. Cofnodion 29/10/2018

Derbyn Cofnodion 29/10/2018 yn gywir ac wedi eu arwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

Coeden Nadolig. Mae'n amserol i drafod trefniadau'r goeden a goleuadau Nadolig. Nodwyd William Rodger Jones y bydd angen archwilio'r goleuadau ac efallai edrych i mewn i bwrcasu rhai Newydd i'r dyfodol. Bydd angen cael gwirfoddolwyr i wneud yr addurno cyn gynted â phosib. Cynigwyd i'r Clerc archebu'r goeden o Glasfryn yw gosod at ddiwedd y mis. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi bod yn talu am y goeden yn hanesyddol mae Penri Jones yn cynnig (eilydd William Rodger Jones) i'r Cyngor Cymuned dalu am y goeden, mae'r cynnig yn llwyddiannus.

5. Etholiadau

Yn dilyn derbyn dau gais mae'r Cyngor yn cynnal cyfetholiad. Mae'r ymgeiswyr wedi ei gwybyddi o'r hyn ac wedi darparu gwybodaeth yw cyflwyno i'r pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth o gymwysterau'r ymgeiswyr mae Greta Hughes yn cynnig bod yn bleidlais gofrestredig.

Mae Penri Jones yn cynnig (Eilydd Rhodri Evans) Evan Glyn Thomas;

O blaid Evan Glyn Thomas – Penri Jones, Rhodri Evans, Iwan Hughes, William Roger Jones, John Brinley Jones a Victor Jones.

O blaid Ann G Rowe – Greta Hughes a Claire Russell Griffiths.

Nodwyd Angela Russell ei bod yn siomedig gyda'r penderfyniad ac yn edrych i ymddiswyddo er cynnig ei sedd i Ann G Rowe gan ei bod yn ymgeisydd cymwys iawn ac yn gallu cynnig llawer i'r Cyngor Cymuned.

6. Rheoliadau Sefydlog

Mae'r Clerc wedi darparu copïau o ddrafft;

- Asesiad Risg
- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Polisi Iaith
- Rheolau Cyfryngau Cymdeithasol
- Cod Ymddygiad

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i'r Clerc am wneud y gwaith yma. Nodwyd bod dipyn o waith yw gwneud eto yn dilyn cyfarfod 12/11/2018 a bydd copïau terfynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Ionawr. Cytunwyd i'r Clerc dderbyn sylwadau dros e-bost gan aelodau'r pwyllgor er gwneud y gwaith at gyfarfod mis Ionawr.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/11/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

7. Archwiliad BDO

Dim diweddariad

8. Cae Chwarae

Yn dilyn y gwaith sydd wedi ei wneud gan y Clerc gellir cadarnhau bod cyflwr yr offer sydd yn y cae chwarae yn beryg iawn gan ei fod wedi dirywio. Cytunwyd i waredu'r offer ac eithrio'r siglen a'r cylchdro. Mae Iwan Hughes yn cynnig (eilydd Rhodri Evans) Dei Russell i wneud y gwaith clirio cyn gynted â phosib. Bydd y Clerc yn gyrru copi o'r adroddiad i Dei Russell cyn gynted a bod modd.

Mae'r Clerc wedi cysylltu i gael tendr i wneud y gwaith ffensio ond nid wedi derbyn llawer o ymatebion. Gobeithio cael prisiau at gyfarfod mis Ionawr.

9. Arolwg o Trefniadau Etholiadol

Adroddiad Argymhellion Terfynol wedi ei gyhoeddi – Mae Angela Russell yn nodi y bydd Llanbedrog yn ymuno gyda wardiau agos ond nid oes newid i Gynghorau Cymuned ar y funud.

Ceisiadau Cynllunio

C18/0970/38/CC

Torri coeden onnen.

Sean Booth Landscapes Ltd, Abersoch Road, Llanbedrog.

Trosglwyddo i'r Swyddog Coed

C18/0971/38/LL

Addasiadau i fynedfa gerbydol

Sean Booth Landscapes Ltd, Abersoch Road, Llanbedrog.

Dim Gwrthwynebiad

C18/1001/38/TC

Cais tystysgrif cyfreithlon defnydd adeilad fel ty annedd gyda gardd Hafdy, Llanbedrog.

Trosglwyddo i'r Swyddog Coed

C18/0899/38/CC

Torri coeden o dan Orchymyn Gwarchod Coed

Glynllifon, Llanbedrog.

Trosglwyddo i'r Swyddog Coed

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y clerch - Rhian Hughes-Jones Mis Tachwedd £333.33

2018

Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol £180.00

Taliadau wedi eu derbyn

Mynwentydd £330.00

Rodd £1000.00

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Angela Russell

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 26/11/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Gohebiaeth

1. **Gylch yr Iaith** - cyflwyno sylwadau ar dwristiaeth yng Ngwynedd gyda chais penodol yn ymwneud â pholisi twristiaeth y Cyngor Sir.
2. **Chwarae Cymru** - E-fwletin Chwarae Cymru Tachwedd 2018.
3. **Tîm Lluoedd Arfog** – Cais am wybodaeth.
4. **Cambrian News** – Cais am straeon.
5. **Un Llais Cymru** - Deall Llefydd Cymru.
6. **Swyddfa Archwilio Cymru** -Creu Cydweithrediad Rhwng Cymru a Gwlad y Basg.
7. **Un Llais Cymru** - Cynhadledd Arfer Arloesol & Gwobrau Cenedlaethol 2019
8. **Cyngor Gwynedd** - Holiadur toiledau cyhoeddus.
9. **Arloesi Gwynedd Wledig** - Dyrywiad Strydoedd Mawr Gwynedd
10. **Swyddfa Archwilio Cymru** - mae angen i gynghorau feddwl a gweithredu'n wahanol i gynnal gwasanaethau yn ardaloedd gwledig cymru.
11. **John Harris** – Materion Ombwtsman.

Cais am gyfraniad

12. **Llyfrau Ilafar Cymru**
13. **Plas Carmel, Anelog** – Adfer hen adeilad capel unigryw.